OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 555

# Rheoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2011

**Talu ac adennill ffioedd**

**4.**—(1) Mae'r holl ffioedd yn daladwy i Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r holl ffioedd yn daladwy pan ofynnir am y tâl.

(3) Caniateir talu unrhyw ffi drwy ddull electronig.

(4) Bydd Gweinidogion Cymru wedi cael unrhyw ffi pan fydd arian cliriedig yn eu meddiant ar gyfer swm cyfan y ffi honno.

(5) Bydd unrhyw ffi neu ran o ffi na fydd wedi ei thalu yn adenilladwy gan Weinidogion Cymru fel dyled sifil.